**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 15 HYDREF 2025 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol**: Y Cyng Jenny Jones (Is-gadeirydd), Elfyn Williams, Eifion Jones, Meinir James, Janet Knott, Shan Rees, Rheinallt Jones.

**Ymddiheuriadau**: Carys Thomas, Viv Davies, Nicola Jones a'r Cynghorydd Sir Tyssul Evans

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng Jenny Jones (is-gadeirydd) yn absenoldeb y Cadeirydd presennol. Cytunwyd bod Meinir James yn cymryd cofnodion y cyfarfod.

**2 Datganiadau Diddordeb**: Mae gan y Cynghorwyr Jenny Jones, Elfyn Williams, Eifion Jones, Meinir James, Janet Knott, Shan Rees, Rheinallt Jones, Carys Thomas, Viv Davies a Nicola Jones gollyngiad i drafod, ymateb a phleidleisio ar gynlluniauFferm Solar Heol Ddu.

Mae'r Cynghorydd Philip Davies (Cadeirydd) wedi datgan gwrthdaro o fuddiannau yn ymwneud a'r mater i'w drafod ac, yn unol â pholisiau'r cyngor, ni fydd yn bresennol nac yn cymryd rhan yn y drafodaeth na'r broses gwneud penderfyniadau.

Mae gwrthdaro o fuddiannau hefyd gan Glerc y Cyngor ac ar gais y Cyngor Cymuned ni fydd yn bresennol nac yn cymryd rhan yn y drafodaeth na'r broses gwneud penderfyniadau ynglŷn a'r mater dan sylw.

**3 Cyfranogiad gan y Cyhoedd**: Nid oedd aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

**4 Fferm Solar Heol Ddu – i ystyried yr ymgynghoriad ar y mater**

Cafwyd trafodaeth lawn a thrylwyr ar Fferm Solar Heol Ddu a'r cynigion diweddaraf ar gyfer y prosiect. Ystyriwyd yn llawn effaith y prosiect ar gymuned ac amgylchedd yr ardal o fewn Cyngor Cymuned Llandyfaelog.

Penderfynwyd creu drafft o ymateb i'r ymgynghoriad diweddaraf yn cloriannu'r sylwadau a wnaed a bydd copi o'r drafft yn cael ei rannu ymhlith y cynghorwyr cyn ei ddanfon at Qualitas cyn y dyddiad cau, sef, 30 Hydref 2025.

Daeth y cyfarfod i ben 9.10pm